LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

**Teitl:** Sgwrs Genedlaethol: Cynllun Strategol Llais: 2024-2027

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | I'w ystyried a'i gymeradwyo gan y Bwrdd |
| **Amseru / Timing** | 22 Ebrill 2024 |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Cymeradwyaeth |
| **Risg / Risk** | Canolig |
| **Cyllid / Finance** | Bydd cyflawni'r Cynllun Strategol yn cael ei gwblhau yn unol â threfniadau cyllideb presennol. Gellir cwtogi'r cynllun yn ôl yr angen i gyflawni hyn. |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective** | Mae'r Cynllun Strategol yn nodi'r pum amcan allweddol ar gyfer Llais ar gyfer y cyfnod 2024-2027 yn fanwl. |
| **Cydraddoldeb / Equality** | Gweler yr Asesiad Effaith Integredig atodedig. |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒<br>**Allanol:** ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒<br>**Allanol:** enw da ein sefydliad ☒ |
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Bwrdd |
| **Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous Discussions/Decisions** | Adeiladu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o gynllun 100 diwrnod Llais a'r flwyddyn gyntaf o weithredu.<br><br>Gan roi ystyriaeth i: Ddeddf Ansawdd ac Ymgysylltu 2020, Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Safonau'r Gymraeg 2016, Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, Dyletswydd y Sector Cyhoeddus, LGBTQ+ a Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru, Llythyr Cylch Gwaith. |

| | |
|---|---|
| **Awdur/Cyflwyno / Author/Presenting** | Ben Eaton |
| **Dyddiad / Date** | 22/04/2024 |

## Cefndir / Background

Yn dilyn cynllun 100 diwrnod Llais a'r flwyddyn gyntaf o weithredu ar gyfer y sefydliad, mae Cynllun Strategol 2024-2027 yn nodi nodau ac amcanion craidd Llais wrth i ni symud i weithio mewn ffyrdd newydd ac arloesol ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol i gynrychioli barn pobl Cymru.

## Manylion / Detail

Mae'r Strategaeth o'r enw Sgwrs Genedlaethol yn archwilio ein blaenoriaethau strategol allweddol ymhellach, er mwyn:

1. Sbarduno sgwrs genedlaethol am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol.
2. Gwthio am wasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl
3. Cydweithio'n well
4. Helpu pobl a gwasanaethau i ddefnyddio technoleg yn y ffyrdd cywir
5. Tyfu a gwella fel sefydliad

Mae'n nodi'r ffyrdd y byddwn yn gweithio gyda'r cyhoedd drwy ein 3 swyddogaeth graidd sef ymgysylltu, cynrychioli, ac eiriolaeth cwynion, yn ogystal ag ymgynghori parhaus a datblygu gwaith sy'n ymwneud â newid gwasanaethau. Mae'n amlygu datblygiad ein ffyrdd o weithio ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Mae'r cynllun hefyd yn ystyried y ffyrdd y byddwn yn dangos ein heffaith i'r cyhoedd, gan sicrhau eu bod yn glir ynghylch y camau nesaf sydd wedi'u cymryd oherwydd eu mewnbwn a'u cydweithrediad.

Mae Cynllun Strategol llawn 2024-2027 wedi'i atodi i'w drafod ymhellach ac i ystyried eich cymeradwyaeth.